Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Nefyn

**Ffordd Dewi Sant**
**Nefyn**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 6EA**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Nefyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Nefyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 136 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 118 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 18 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 10.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 8.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 75.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/01/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/11/2023 |
| Ysgol groesawgar a theimlad cryf o berthyn. Pennaeth yn arwain yn gadarn, llywodraethwyr yn wybodus ac yn weithredol. Safonau yn dda, lles ac agweddau'r disgyblion yn dda iawn, addysgu yn dda - ambell athrawes yn arbennig.Cwricwlwm i Gymru yn datblygu'n bwrpasol iawn - profiadau creadigol yn gryfder amlwg. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Nefyn yn gymuned hapus, ofalgar a chartrefol. Mae’r disgyblion yn ymddwyn yn ardderchog, yn mwynhau dysgu ac yn teimlo’n falch iawn o’u hysgol. Teimla'r disgyblion yn ddiogel a hapus a datblygant berthynas waith gref â’r staff. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol ac maent yn ymgysylltu’n dda â’u dysgu. Maent yn dyfalbarhau pan fydd tasgau’n eu herio ac yn awyddus iawn i wneud eu gorau. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da.

Mae effaith arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn weledol ar draws yr ysgol. Mae’r staff ymroddedig yn gweithio’n hynod effeithiol er mwyn creu hafan ddiogel ac amgylchedd dysgu cynhwysol i’r disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro a gwerthuso’r cynnydd yn fedrus ac yn adnabod blaenoriaethau gwella yn synhwyrol. Mae’r llywodraethwyr yn weithredol fel ffrindiau beirniadol ac yn cefnogi holl weithgareddau’r ysgol yn barchus.

Ar draws yr ysgol, mae’r awyrgylch bositif yn annog cymunedau dysgu effeithiol a phwrpasol. Darperir cwricwlwm creadigol, cytbwys a dychmygus i’r disgyblion sy’n adeiladu ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau yn effeithiol. Mae’r ddarpariaeth yn gyffrous ac yn rhoi cyfle i’r disgyblion ddysgu am eu hardal leol, am Gymru ac yn ehangach. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Er bod athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau addysgu yn eu dosbarthiadau, nid yw’r adborth bob tro’n ddigon miniog i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith, a datblygu eu gwaith ymhellach.

Rhoddir cyfleoedd cyson a gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol fel eisteddfodau, cystadlaethau chwaraeon a chyngherddau sy’n fodd i feithrin eu hunanhyder a’u gallu corfforol, mynegiannol a chreadigol.

## Argymhellion

A1 Ehangu’r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yn amserol er mwyn iddynt wybod beth i’w wneud i wella a datblygu eu gwaith ymhellach

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar sut mae’r ysgol yn cynllunio profiadau creadigol i ddwysáu dysgu’r disgyblion am hanes a diwylliant eu cymuned leol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda’u medrau yn y man disgwyliedig ar gyfer eu cam datblygiad. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae’r disgyblion yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg, gyda’r rhan fwyaf yn cyfathrebu’n hyderus gan ddefnyddio geiriau cyfarwydd yn gywir. Maent yn siarad yn hyderus ac mae acen yr ardal i’w chlywed ar eu lleferydd. Mae’r disgyblion ieuengaf yn cyfathrebu’n hyderus yn y Gymraeg gan wrando’n astud ar gyfarwyddiadau staff a chyfraniadau ei gilydd. Maent yn frwdfrydig wrth sgwrsio, er enghraifft wrth gymharu ffrwythau sy’n tyfu ar draws y byd. Mae’r disgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio ystod addas o eirfa a phatrymau iaith mewn cyd-destunau diddorol, er enghraifft wrth gyfansoddi a pherfformio Cân Sianti Môr.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu’n llwyddiannus. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dod i adnabod ffurf a sain llythrennau o oedran cynnar ac yn mwynhau gwrando ar storïau, gan gymryd sylw da o’r lluniau. Erbyn Blwyddyn 3, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen mewn cyd-destunau gwahanol ac yn darllen a deall testunau mwy heriol yn y ddwy iaith. Er enghraifft, maent yn darllen erthygl am antur mynyddwr lleol a deithiodd mewn balŵn dros Fynydd Everest. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn darllen gyda mynegiant, gan ystyried cynulleidfa a’r gwrandawyr wrth ddarllen ar goedd.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu’n dda ac mae ystod eang o gyfleoedd i ysgrifennu i bwrpas. Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn dechrau ysgrifennu’n annibynnol ac yn defnyddio banciau o eiriau, a fframweithiau, i’w helpu i ffurfio brawddegau. Ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio’u gwybodaeth am lythrennau a seiniau i ysgrifennu’n annibynnol a rhoi cynnig ar sillafu geiriau anghyfarwydd. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n bwrpasol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o dechnegau sy’n eu helpu i wella eu gwaith. Ar frig yr ysgol, maent yn defnyddio’u gwybodaeth am anifeiliaid ymfudol i ysgrifennu adroddiadau ffeithiol sy’n esbonio’r rhesymau dros y newidiadau daearyddol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau mathemategol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn cyfrif hyd at 10 yn hyderus ac yn arbrofi â defnyddio bondiau rhif. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif priodol ac maent yn defnyddio diagramau Venn i ddidoli eitemau. Ym Mlwyddyn 3 a 4, mae disgyblion yn arddangos medrau mathemateg cadarn. Maent yn medru dwyn i gof ffeithiau lluosi tabl 7 ac yn gallu defnyddio termau mathemategol yn gywir. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datrys problemau ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau difyr. Er enghraifft, maent yn dysgu am gostau ac elw fel rhan o’u prosiect mentergarwch, ‘Creu Cadwyni Cymru.’

Mae bron pob disgybl yn defnyddio amrediad cynyddol o offer digidol a meddalwedd yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau i gefnogi eu dysgu. Maent yn cymhwyso'u medrau digidol yn grefftus gan ymateb i wahanol dasgau. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio meddalwedd animeiddio yn bwrpasol i wneud i'r ffrwythau siarad. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio taenlenni'n fanwl a chywir wrth gymharu afonydd ar draws y byd a defnyddio fformiwlâu i ddadansoddi'r data.

Mae disgyblion yn datblygu ystod ddychmygus o fedrau creadigol ac yn defnyddio'u medrau yn fedrus ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio eitemau ailgylchu i greu creaduriaid lan y môr a'r disgyblion hŷn yn ailgylchu papur ac adnoddau naturiol i greu cadwyni yn seiliedig ar eu gwaith thematig. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i greu delweddau creadigol. Maent yn efelychu gwaith artistiaid yn fedrus ac yn amrywio tôn a lliw yn ofalus, er enghraifft wrth gyfleu glöyn byw ac wrth greu darluniau batic o fynyddoedd iâ. Caiff cynnyrch creadigol disgyblion ei arddangos a'i ddathlu yn chwaethus o fewn yr amgylchedd dysgu lliwgar sy'n meithrin eu balchder at eu gwaith.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae ymddygiad bron pob disgybl yn arbennig ar draws yr ysgol ac maent yn deall pwysigrwydd parchu rheolau sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar eu hymddygiad o ddydd i ddydd. Maent yn ystyriol o eraill ac yn hynod gwrtais gan ddangos gofal a pharch at eu cyfoedion, oedolion cyfarwydd ac ymwelwyr. O ganlyniad, maent yn datblygu'n ddinasyddion cyfrifol, gwybodus a moesol sy'n deall sut mae eu gweithredoedd yn effeithio ar bobl eraill.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'u hawliau yn datblygu'n dda ac mae bron bob disgybl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes rhywbeth yn eu poeni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wrth eu bodd yn yr ysgol ac yn teimlo'n hapus oddi fewn naws ofalgar, gynhwysol a chartrefol. Cânt gyfleoedd i esbonio beth sy'n bwysig iddynt ac i ddisgrifio sut gall oedolion yr ysgol eu cefnogi a'u helpu i ddysgu. Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o'r byd digidol a sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn frwdfrydig wrth ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, ar draws yr ysgol, maent yn fentrus wrth arbrofi ag amrywiaeth o gyfryngau a deunyddiau i gynhyrchu gwaith celf o safon uchel, ac arbrofi â chyfryngau cerdd, drama a TGCh i gyflwyno eu gwaith mewn dulliau dychmygus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnig syniadau ac yn mynegi barn am gynnwys eu gweithgareddau dysgu. Er enghraifft, wrth osod awgrymiadau ar ddail ar y goeden cynllunio ar ddechrau thema dymhorol, maent yn cydweithio'n llwyddiannus â'u cyfoedion i gyfrannu'n bwrpasol. O ganlyniad, mae cyfranogiad a brwdfrydedd y disgyblion at eu dysgu yn gadarn iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad, ac yn dangos balchder uchel yn eu gwaith wrth gwblhau tasgau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth sy'n effeithio ar eu hiechyd. Maent yn deall pwysigrwydd cynnal diet cytbwys a'r cysylltiad rhwng corff a meddwl iach. Maent yn awyddus i hyrwyddo pwysigrwydd yfed dŵr a

bwyta ffrwythau ymhlith eu cyfoedion a'u teuluoedd. Er enghraifft, maent yn esbonio pam mae'n fuddiol bwyta byrbrydau iach a pha ddiodydd sydd â gormod o siwgr.

Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac yn gwrando'n astud ar safbwyntiau eraill, er enghraifft wrth gasglu adnoddau i greu animeiddiad ar y gylchred ddŵr. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n hapus i roi cynnig ar dasgau, yn deall ei fod yn iawn i wneud camgymeriadau a'i fod yn rhan bwysig o'r broses ddysgu. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol bod ganddynt dargedau, nid ydynt bob tro'n gallu esbonio agweddau penodol o'u gwaith y mae angen iddynt eu gwella.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth hynod o gadarn o'u hardal leol a'u hanes. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn esbonio manteision byw'n lleol a'r effaith y mae ail gartrefi yn ei chael ar yr ardal drwy berfformio rap "hawl i fyw adra'". Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn gwerthfawrogi tirwedd arfordirol Llŷn ac yn cymryd rhan â balchder gwirioneddol wrth ofalu am yr amgylchfyd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n dangos ymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned a'u hardal leol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n unigolion moesol trwy eu gwaith yn y gymuned leol. Er enghraifft, wrth ymweld yn rheolaidd â chartref yr henoed mae disgyblion yn cael cyfle i gyfathrebu a pherfformio i'r preswylwyr. Mae hyn yn caniatáu i ddisgyblion wrando ar storïau a hanesion ac yn gwneud i breswylwyr ryngweithio, sy'n hybu eu hapusrwydd cyffredinol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cefnogi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru'n llwyddiannus iawn.

Mae gan athrawon weledigaeth glir ar gyfer adeiladu ar wybodaeth a chysylltiadau cymunedol, Cymru, a'r byd ehangach i ddatblygu dealltwriaeth a medrau'r disgyblion yn ddychmygus iawn. Mae disgyblion yn cael eu herio a'u hannog i gyfrannu fel aelodau parchus o gymuned Nefyn. Mae arbenigeddau athrawon yn ddeheuig wrth gyflwyno elfennau o'r cwricwlwm i ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio'n unigol, mewn parau a grwpiau. Mae'r athrawon yn annog annibyniaeth y disgyblion wrth hwyluso'r dysgu mewn modd dychmygus. Wrth gynllunio'n ofalus, darparu profiadau difyr sy'n ysbrydoli, a sicrhau ymroddiad pob disgybl, maent yn hybu ymdeimlad cryf o berthyn i'r pentref yn llwyddiannus.

Mae gan y staff berthynas waith hynod fuddiol a chlòs gyda'r disgyblion. Mae hyn yn meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn annog a chanmol eu hymdrechion yn gyson tra byddant yn gweithio a rhyngweithio â'u cymheiriaid. Mae bron bob aelod o staff yn arddel disgwyliadau uchel ar gyfer safonau disgyblion ac yn dangos brwdfrydedd at y Gymraeg. Maent yn modelu iaith yn feistrolgar, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da wrth gaffael medrau ieithyddol, a'u defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol. Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys.

Mae staff yn defnyddio ystod o gwestiynau effeithiol sy’n arwain y disgyblion i fyfyrio ar eu dysgu ac ymateb yn ymestynnol. Mae holi treiddgar y staff yn helpu disgyblion i gadarnhau eu dealltwriaeth o dasgau ac i adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn dewis elfennau penodol a chynnwys deallus wrth greu llythyr o safbwynt cymeriad mewn nofel.

Yn nosbarthiadau’r disgyblion ieuengaf, mae athrawon a chynorthwywyr yn sicrhau bod profiadau dysgu creadigol ac ymarferol yn cael eu hymgorffori’n fedrus yn yr ardaloedd dysgu. Maent yn ardaloedd atyniadol sy’n cael eu defnyddio’n fwriadus i annog disgyblion i weithio’n gynhyrchiol a chyfoethogi’u profiadau. Ar draws yr ysgol, mae staff yn cydweithio’n glòs fel aelodau effeithiol o dîm wrth gynllunio ymweliadau a gweithdai ysgogol sy’n plethu cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn effeithiol iawn. Er enghraifft, ysgrifennodd disgyblion ar frig yr ysgol stori a’i throsi i greu ffilm animeiddio ar hanes pysgotwyr penwaig Nefyn. Trwy’r profiadau hyn, maent yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddwysáu eu dealltwriaeth a’u gwybodaeth am fywydau trigolion lleol ddoe a heddiw. Ar draws yr ysgol, mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion gydweithio ag artistiaid lleol a beirdd cenedlaethol, er enghraifft wrth greu’r murlun trawiadol “Gair mewn Gwlân” sy’n adlewyrchu hanes y gymuned leol.

Mae’r athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddarllen eu gwaith ar goedd, gan roi adborth llafar adeiladol ar sut i ddatblygu’r gwaith ymhellach. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn fanwl gan ddefnyddio cyfoeth o wybodaeth yn ddeallus wrth asesu’r gwaith. Mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith cyfoedion. Mae athrawon, gyda’r disgyblion ieuengaf, yn creu meini prawf llwyddiant cytûn, ac mae’r disgyblion hynaf yn hyderus wrth lunio eu meini prawf eu hunain, a’u defnyddio i wirio eu cynnydd. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu â’u dysgu am gyfnodau estynedig ac yn datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o ffyrdd dysgu amrywiol ac effeithiol. Mae athrawon yn ymateb yn drwyadl i waith disgyblion mewn llyfrau, gan gynnig sylwadau defnyddiol ar gyfer gwella. Er hynny, nid oes digon o gyfleoedd amserol i ddisgyblion ymateb i’r adborth er mwyn adeiladu ar eu gwaith da, a’i wella ymhellach.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, ac mae ei hethos yn gynnes a chyfeillgar iawn. Mae perthnasoedd cadarnhaol yn nodwedd gref rhwng staff a disgyblion ac ymhlith y disgyblion eu hunain. Mae’r staff yn hyrwyddo parch, cwrteisi, ac ymddygiad disgyblion yn hynod lwyddiannus. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn dwymgalon i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu hapusrwydd a'u lles.

Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol, lle bo’n briodol. Mae staff yn goruchwylio disgyblion yn wyliadwrus yn ystod amseroedd hamdden ac wrth iddynt gyrraedd ac ymadael â’r ysgol. Mae gweithdrefnau’r ysgol ar gyfer sicrhau presenoldeb cyson disgyblion yn gadarn. Mae’r staff yn cadw cofnod o unrhyw absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni’n amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r pennaeth, sy'n gweithredu fel cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, yn gweithio'n agos gyda'r tîm addysgu i deilwra cymorth a chefnogaeth addas a phrydlon, sy'n galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd. Mae proffiliau un tudalen pwrpasol yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am anghenion unigol disgyblion a'r hyn sydd ei angen arnynt i ddatblygu ymhellach. Mae'r pwyslais a roddir ar dargedu ymyrraeth, unigol ac mewn grwpiau, yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les a datblygiad y disgyblion.

Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr i gasglu gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r system olrhain i fonitro cynnydd disgyblion yn eu dosbarthiadau yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o staff cefnogi dysgu yn y dosbarthiadau ac i gyflwyno ystod o raglenni ymyrraeth. Maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn hynod gydwybodol. O ganlyniad, mae'r staff yn asesu cyflawniadau disgyblion a'u lles yn bwrpasol, sy'n golygu bod athrawon yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o anghenion pob disgybl. Pan fydd staff yn nodi materion i'w gwella, mae'r ysgol yn darparu cymorth ac ymyraethau gwerthfawr i wella dysgu disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol yn trefnu ystod o ddigwyddiadau mewn partneriaeth â'r gymuned, sy'n atgyfnerthu ymdeimlad disgyblion o berthyn. Mae staff yr ysgol yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu cysylltiadau pwrpasol â'u cymuned leol, ac mae disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â nhw. Er enghraifft, mae staff yn trefnu bod disgyblion yn cymryd rhan i ganu carolau cyn troi'r golau Nadolig ymlaen yn y pentref. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddeall pwysigrwydd bod yn rhan o'r gymuned.

Mae gan yr ysgol drefniadau clir a llesol ar gyfer addoli ar y cyd. Er enghraifft, mae athrawon a disgyblion yn cynnal gwasanaethau ar themâu crefyddol a moesol. Mae athrawon yn ysbrydoli'r disgyblion drwy rannu hanes enwogion dylanwadol fel Martin Luther King, gan annog disgyblion i fyfyrio ar bobl maent yn eu hedmygu a'u hysbrydoli.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion ymgeisio i fod yn aelodau o'r cynghorau amrywiol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n fedrus i weithgarwch yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn arwain mentrau buddiol fel ailgylchu gwisg ysgol.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion leisio eu barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Trwy gynnig profiadau creadigol, ysgogol a themâu difyr, mae'r athrawon yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, wrth ymweld â chanolfan y bad achub lleol a'r amgueddfa forwrol, manteisia'r athrawon ar gyfleoedd gwerthfawr i addysgu disgyblion am ddylanwad y môr ar fywyd yr ardal.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Drwy ei harweiniad cadarn, mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad clir ac yn creu amgylchedd dysgu hapus, croesawgar a chynhwysol. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob disgybl yn gwneud cynnydd da.

Mae'r weledigaeth yn cael ei hadlewyrchu'n glir trwy arwyddair a gwerthoedd yr ysgol, 'Angor gadarn, cyn hwylio'r don', ac wedi ei rhannu'n llwyddiannus â chymuned yr ysgol. Nodwedd gref o'r ysgol yw'r ethos naturiol Gymraeg a Chymreig ac ymdeimlad o falchder disgyblion at yr iaith a'u hardal leol. Mae'r ystod gyfoethog o brosiectau celfyddydol yn gyfrwng effeithiol iawn i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a'i chyfoeth o hanes a thraddodiadau.

Mae staff a'r rhieni'n cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i wireddu'r weledigaeth ac mae ei heffaith i'w gweld yn natblygiad a lles y disgyblion. Nodwedd amlwg yw'r modd y mae staff ac arweinwyr yn meithrin a chynnal ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion, ac o'u hunain, gan annog yr holl ddisgyblion i fwynhau dysgu mewn amgylchedd cynhwysol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwrtais a chroesawgar ac yn ymdrechu o'u gorau wrth ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu.

Mae gan yr ysgol brosesau hunanwerthuso effeithiol iawn ac mae'n cynnwys pob aelod o staff ar gyfer gwarantu ansawdd. Maent yn gwerthuso perfformiad yr ysgol gan gasglu tystiolaeth uniongyrchol ac yn ystyried cyfraniadau staff, rhieni a llywodraethwyr. Defnyddir y wybodaeth o'r gweithgareddau monitro yn effeithiol i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, wrth ddyrannu rolau a chyfrifoldebau staff yn effeithiol, mae staff cymorth yn cymryd perchnogaeth wrth gyflwyno sesiynau ymyrraeth buddiol i gefnogi a herio unigolion a grwpiau penodol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth fuddiol o drefniadau dyddiol yr ysgol. Rhyngddynt, mae ganddynt drosolwg cynhwysfawr o holl agweddau'r ysgol sy'n cyfrannu'n ddeallus at benderfyniadau strategol, sy'n sicrhau gwelliannau. Er enghraifft, maent yn ymgymryd â theithiau dysgu ac yn trafod gwaith disgyblion ochr yn ochr ag athrawon. O ganlyniad, maent yn fwy ymwybodol o gryfderau a meysydd i'w gwella.

Mae'r corff llywodraethol hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn derbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth sy'n amlygu bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd craff o gyllid, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion a grantiau celfyddydol. Mae hyn yn cael effaith arbennig ar wella medrau disgyblion. Er enghraifft, maent wedi defnyddio cyllid grantiau celfyddydol i drefnu ymweliadau a gweithdai hynod effeithiol sy'n ehangu gorwelion a dyfnhau medrau celf, drama, cerddoriaeth a TGCh disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio ac yn monitro defnydd y grant datblygu disgyblion yn synhwyrol gan ddyrannu adnoddau'n effeithiol i ddarparu ymyraethau penodol ar draws yr ysgol. Drwy hyn, mae'r cynorthwywyr yn darparu cefnogaeth fuddiol i symud disgyblion ymlaen â'u dysgu.

Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson ar gael i staff, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'u hanghenion proffesiynol personol. Maent yn cynorthwyo ei gilydd ac yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau, er enghraifft trwy ddarparu cyflwyniadau byr am arferion addysgu effeithiol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â rhwydwaith o ysgolion lleol sy'n darparu cyfleoedd bwriadus iddynt ddysgu a rhannu arfer dda. Mae hyn yn datblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu ac yn creu diwylliant hynod effeithiol o gydweithio.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   01/02/2024